

PROSPECTWS CA4

# Ysgol Bro Hyddgen

KS4 PROSPECTUS



# 02 Gair o groeso

## Ymweld â'r Ysgol

Mae croeso i rieni/ warcheidwaid ymweld â'r ysgol ond gofynnwn yn garedig i chi ffonio ymlaen llaw i drefnu cyfarfod â'r aelodau perthnasol o staff pan fo angen.



Yn dilyn blwyddyn arall lwyddiannus iawn gyda canlyniadau TGAU'r ysgol rwyf yn falch iawn o'r ysgol, disgyblion a'r athrawon gweithgar.

Er bod niferoedd mewn ysgolion yn lleihau ar draws y wlad mae'r niferoedd ym Mro Hyddgen yn parhau i fod yn gyson gyda dysgwyr yn ymuno o'r ysgol o du allan i'r dalgylch. Rydym yn derbyn disgyblion o dair sir – Powys, Gwynedd a Cheredigion. Mae'r dalgylch ym Mhowys yn ymestyn mor bell â Charno yn y dwyrain ac Aberangell yn y gogledd-ddwyrain. Awdurdod Addysg Powys sy'n gyfrifol am yr ysgol ond y mae trefniadau arbennig i dderbyn disgyblion o Wunedd a Cheredigion.

Fel ysgol gyfun gymysg mae Ysgol Bro Hyddgen yn darparu'r cyrsiau uwchradd arferol hyd at Lefel 'A', U/G, TGAU, Bagloriaeth Cymreig a chyrtsiau Galwedigaethol. Mae natur y dalgylch lle mae'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd yn ysgolion Cymraeg eu hiaith ac ysgol gynradd y dref yn ffurfio'n ieithyddol yn llunio patrwm ieithyddol Ysgol Bro Hyddgen. Rydym yn darparu cyrsiau yn y ddwy iaith ac y mae bywyd gweinyddol a chymdeithasol yr ysgol yn ddwyieithog.

Dafydd M B Jones  
Pennaeth

## Canlyniadau 2017

Mae Ysgol Bro Hyddgen unwaith eto yn dathlu canlyniadau TGAU rhagorol. Llwyddodd 82% i ennill graddau 5A\*-C. Roedd nifer barchus iawn o'r graddau yn raddau A\*/A neu gyfwerth, gyda 16.3% o'r dysgwyr yn ennill o leiaf 5A\*/A. Llwyddodd dysgwyr oedd wedi cyfuno cymwysterau galwedigaethol gyda'u pynciau TGAU i gyrraedd safonau uchel iawn hefyd gyda chyfradd pasio o 100%. Mae pob adran wedi cyflawni llwyddiant arwyddocaol sydd yn adlewyrchiad o waith caled yr holl staff dysgu.

*Esboniadau ar gyfer y talfyrniadau;*

*L2+ (5TGAU A\*-C a Chymraeg iaith gyntaf/Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg), L2 (5TGAU A\*-C), L1 (5 TGAU A\*-G), DPC (Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg iaith gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth), Cap9(Canlyniad yr 9 TGAU gorau).*

	Un disgybl fel % (L2+)	L2+	L2	L1	Cap9
2016/17	2.0	65.3 <b>1</b>	81.6 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	390.2 <b>1</b>
2015/16	2.5	67.5 <b>3</b>	97.5 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -
2014/15	1.4	61.1 <b>3</b>	97.2 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -
2013/14	1.9	67.3 <b>3</b>	100.0 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -
2012/13	1.7	47.5 <b>4</b>	96.6 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -





# A word of welcome

Following another very successful year, I am very proud of the school, the pupils and the hard working members of staff.

Although there is a drop in pupil numbers in most schools, the numbers at Bro Hyddgen are constant, with many pupils choosing to study here from outside the catchment area. We receive pupils from three counties – Powys, Gwynedd and Ceredigion. The Powys section of the catchment area extends as far east as Carno and to Aberangell in the north-east. The Gwynedd and Ceredigion pupils are known as extra-district pupils. The school is run by the Powys Education Authority but arrangements are made for extra-district pupils.

As a mixed comprehensive, Ysgol Bro Hyddgen provides the usual range of secondary courses up to 'A', A/S. GCSE, BTEC and the Welsh Baccalaureate. The nature of the catchment area where the majority of primary schools are predominantly Welsh in linguistic character and the provision of Welsh-medium education in the town primary school, determines the linguistic character of Ysgol Bro Hyddgen. Courses are provided in both languages and the administrative and social life of the school is bilingual.

**Dafydd M B Jones**  
Head-teacher

## Visit the school

There is always a warm welcome for parents and carers to our school, but we do ask kindly that you arrange this before hand in order that the relevant member of staff is available.



## Results 2017

Ysgol Bro Hyddgen again celebrated an outstanding set of GCSE results. 82% achieved 5A\*-C. A commendable number of the grades achieved were A\*/A grades or equivalent – 16.3% of the pupils achieved at least 5A\*/A. Students who have combined vocational qualifications with their GCSEs have also achieved to a very high standard, with a 100% pass rate. All departments have achieved overall significant successes, and this is a reflection of the hard work of all the teaching staff.

*Explanations for the abbreviations;*

*L2+ (5GCSEs A\*-C and Welsh first language/English language and Mathematics), L2 (5GCSEs A\*-C), L1 (5 GCSEs A\*-G), CSI (Welsh first language/English first language, Mathematics, and Science), Cap9(Best 9 GCSE results).*

	One pupil as % (L2+)	L2+	L2	L1	Cap9
2016/17	2.0	65.3 <b>1</b>	81.6 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	390.2 <b>1</b>
2015/16	2.5	67.5 <b>3</b>	97.5 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -
2014/15	1.4	61.1 <b>3</b>	97.2 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -
2013/14	1.9	67.3 <b>3</b>	100.0 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -
2012/13	1.7	47.5 <b>4</b>	96.6 <b>1</b>	100.0 <b>1</b>	- -

# 04 Canlyniadau

## Beth yw TGAU?

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd. Cyflwynir graddau yn ôl wyth gris a ddynodir â'r llythrennau A\*-G. Bydd yr arholiadau nid yn unig yn profi'ch cof a'ch gallu i gyflwyno ffeithiau ond hefyd yn profi'ch dealltwriaeth, eich sgiliau ymarferol a'ch gallu i gymhwysu gwybodaeth.

## Arholiadau

Er y bydd yr arholiadau allanol ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn bwysig, mae'r gwaith a wneir a'r hyn a ddysgir yn ystod y ddwy flynedd yn bwysig hefyd. Mae gwaith cwrs, prosiectau, a phroffion modiwl, o dan oruchwyliaeth yr athrawon, erbyn hyn yn cyfrannu at eich gradd derfynol mewn sawl pwn.



Gwnaethpwyd cynnydd derbyniol ar ganlyniadau TGAU llwyddiannus llynedd.

- 5 A\* - C: 82%
- 5 A\* - C yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Maths: 65%
- Dysgwyr yn ennill 5 A\* - A: 16.3%
- A\* - C llwyddo yn TGAU: 82%

Fis Awst 2017 roedd Ysgol Bro Hyddgen unwaith eto yn dathlu canlyniadau TGAU rhagorol. Llwyddodd 82% i ennill graddau 5A\*-C. Roedd nifer barchus iawn o'r graddau yn raddau A\*/A neu gyfwerth, gyda 16.3% o'r dysgwyr yn ennill o leiaf 5A\*/A. Llwyddodd dysgwyr oedd wedi cyfuno cymwysterau galwedigaethol gyda'u pynciau TGAU i gyrraedd safonau uchel iawn hefyd gyda chyfradd pasio o 100%. Mae pob adran wedi cyflawni llwyddiant arwyddocaol sydd yn adlewyrchiad o waith caled yr holl staff dysgu.

Llwyddiannau nodedig:

- Ffion Davies: 8A\*, 5A, 1B a Theilyngdod mewn Mathemateg Ychwanegol
- Harriet Bletcher: 8A\*2A, 2B a Theilyngdod mewn Mathemateg Ychwanegol
- Seren Faber: 2A\*, 3A and 7B
- Hanna Lewis: 2A\*, 3A, 3B, 4C a 1 Rhagoriaeth\*
- Heledd Pughe: 2A\*, 11B a Pasio mewn Mathemateg Ychwanegol
- Zara Cousins: 1A\*, 5A and 6B
- Robyn Williams: 1A\*, 5A and 7B
- Amy Jones: 1A\*, 3A, 8B and 1C
- Macsen Tamos: 1A\*, 3A, 7B and 1C
- Ingrid Holdsworth: 1A\*, 1A, 4B and 6C
- Ellie Crowley: 8A, 3B, 2C a Pasio mewn Mathemateg Ychwanegol

Dywedodd y Pennaeth, Mr Dafydd Jones: 'Unwaith eto eleni, hoffwn longyfarch y dysgwyr ar lefelau cyrhaeddiad rhagorol ac rwyf yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu gwaith caled ac i'r rhieni am eu cefnogaeth gyson. Mae wedi bod yn flwyddyn heriol i bob ysgol gyda chymaint o newidiadau gan y Llywodraeth sydd wedi cael effaith ar y flwyddyn benodol hon. Rydym wedi canolbwyntio ar ddarparu cwricwlwm o ansawdd uchel a cheisio sicrhau cydbwysedd a chefnogaeth er mwyn darparu cyfle i'r myfyrwyr ddysgu a datblygu ar lefel bersonol - nid i sefyll arholiadau yn unig. Mae'r agwedd hon wedi dwyn ffrwyth fel y gwelir o'r canlyniadau Lefel A derbyniol iawn. Edrychaf ymlaen i groesawu nifer o'r dysgwyr yn ôl i'r Chwched Dosbarth ym mis Medi pan fydd nifer o fyfyrwyr o ysgolion tu allan i dalgylch yr ysgol yn ymuno â nhw.'



# Results

05

Ysgol Bro Hyddgen makes pleasing progress on last year's successful GCSE results

- 5 A\* to C grades – 82%
- 5 A\* to C grades including Welsh/English and Maths – 65%
- Students achieving 5 A\* to A grades – 16.3%
- A\*-C grades achieved at GCSE – 82%

Back in August 2017 Ysgol Bro Hyddgen was once again celebrating outstanding GCSE results. 82% achieved 5A\*-C. A commendable number of the grades achieved were A\*/A grades or equivalent – 16.3% of the pupils achieved at least 5A\*/A. Students who have combined vocational qualifications with their GCSEs have also achieved to a very high standard, with a 100% pass rate. All departments have achieved overall significant successes, and this is a reflection of the hard work of all the teaching staff.

Notable achievements include:

- Ffion Davies: 8A\*, 5A, 1B and Merit in Additional Mathematics
- Harriet Bletcher: 8A\*2A, 2B and Merit in Additional Mathematics
- Seren Faber: 2A\*, 3A and 7B
- Hanna Lewis: 2A\*, 3A, 3B, 4C and 1 Distinction\*
- Heledd Pughe: 2A\*, 11B and Pass in Additional Mathematics
- Zara Cousins: 1A\*, 5A and 6B
- Robyn Williams: 1A\*, 5A and 7B
- Amy Jones: 1A\*, 3A, 8B and 1C
- Macsen Tomos: 1A\*, 3A, 7B and 1C
- Ingrid Holdsworth: 1A\*, 1A, 4B and 6C
- Ellie Crowley: 8A, 3B, 2C and Pass in Additional Mathematics

Headteacher, Mr Dafydd Jones said: "Yet again this year, I wish to congratulate the students on their outstanding achievements and I'm very grateful to the staff for their hard work, and the parents for their continued support. It has been a challenging year for all schools with so many changes from Government that have affected this particular year group. We have concentrated on having a high quality and balanced curriculum alongside considerable support that gives students time to learn and personally develop not just to sit exams. This approach very much reaps its rewards when students go on to further study as shown by our very pleasing A Level results. I look forward to welcoming many of our students back to our sixth form next year, where they'll be joined by several new students from beyond the school's catchment area".

## What are GCSE's?

General Certificate of Secondary Education - The G.C.S.E. is a single system of examinations with a single scale of grades from A\* to G. The examinations not only test your memory and ability to present facts, they also test your understanding, practical skills and your ability to apply your knowledge.

## Examinations

Though the external examinations at the end of the two years are very important, what you actually learn is equally valuable. Under the teachers' supervision coursework, projects and regular testing of skills now contribute to your final grade. Doing your very best over the next two years has become more important than ever.



# 06 Ysgol a Chartref

## Pam mae cysylltiad gyda'r cartref yn bwysig?

Mae plentyn hapus yn blentyn sydd yn barod i lwyddo yn yr ysgol. Mae'n hollol bwysig cael cysylltiad cryf gyda'r cartref i sicrhau hyn.



## Cyfleoedd all-gyrsiol

- Gwersi offerynnol yn yr Adran Gerddoriaeth
- Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd
- Adran Astudiaethau Corfforol
- Nifer o glybiau ar-ôl ysgol ac yn ystod y dydd e.e. Uwchadran yr Urdd, 5x60

## Amcanion Cwricwlwm yr Ysgol

- Yn bennaf, ceisio meithrin cymdeithas wâr sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd dynol a moesol a datblygu hunan barch yn ogystal â pharch, goddefgarwch a gofal am eraill.
- Paratoi pob unigolyn i fyw bywyd llawn yn y gymdeithas ddwyieithog y mae'n byw ynddi.
- Galluogi pob unigolyn i ddatblygu, i feistrolï ac i ddefnyddio'u sgiliau sylfaenol a'u medrau allweddol, yn arbennig medrau iaith a llythrennedd a medrau rhifedd.
- Galluogi pob unigolyn i ddatblygu sgiliau deallusol, creadigol, cymdeithasol, ymarferol a chorfforol.
- Dysgu am orchestion a gobeithion dynol ym maes y celfyddydau, y gwyddorau, crefydd, a'r ymchwil am gymdeithas amgenach.
- Galluogi pob unigolyn i feddu gwybodaeth, i feddu agwedd a sgiliau perthnasol i fywyd oedolyn mewn byd mor gyfnewidiol, ac at addysg gydol oes a'r defnydd creadigol a wneir o oriau hamdden.
- Cynorthwyo pob disgybl i ddeall y byd y mae'n byw ynddo—sut mae unigolion, grwpiau, pobloedd a chenhedloedd yn dibynnu ar ei gilydd, a'r berthynas rhwng dyn a'i amgylchedd.

## Mynediad i'r Cwricwlwm

Mae cwricwlwm cyflawn yr ysgol yn hollol agored i bob disgybl—nid ydym yn cyfyngu nac yn llywio ar sail rhyw, hil na chrefydd y disgybl.

Lle ceir elfen o ddewis, byddwn yn sicrhau bod pob disgybl yn dilyn cwricwlwm sy'n eang a chytbwys ac yn addas i'w gofynion, eu dibenion a'u tueddiadau.





# School and Home

07

## Aims of the school's curriculum

- To primarily seek to nurture a civilized society that emphasises humane and moral values and to develop self-esteem as well as respect, tolerance and care for others.
- Prepare each individual to live a full life in the bilingual community in which they live.
- Enable each individual to develop, master and use their basic and key skills, particularly language and literacy skills and numeracy skills.
- Enable each individual to develop intellectual, creative, social, practical and physical skills.
- Learn about human aspirations and achievements in the arts, sciences, religion, society and the search for an alternative society.
- Enable every individual to possess knowledge, skills and attitude relevant to adult life in such a changing world, to lifelong learning and the creative use made of leisure time.
- Assist all pupils to understand the world they live in—the interdependence between people and the environment.

## Why is home to school link important?

A happy pupil is a successful pupil who will flourish in school. It is important that a good link from school to the home is made in order to ensure this is successful.



## Access to the Curriculum


The school's entire curriculum is completely open to all pupils—there is neither restriction nor guidance on the basis of the pupil's gender, race or religion.

Where there is an element of choice, it is ensured that all pupils follow a curriculum that is broad and balanced and fits the requirements, purposes and tendencies for the pupil.

## Extra-curricular opportunities

- Instrumental lesson in the Music Department
- Success in the Urdd Eisteddfod
- Take part with the P.E Department.
- Many after school clubs and clubs during the day e.g. the Urdd and 5x60

# 08 Gwireddu breuddwydion



## Nodau'r ysgol:

- Ysgol lle mae ethos Gymraeg cadarn, a lle rydym yn datblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang sy'n parchu pawb.
- Ysgol lle rydym yn dysgu sgiliau i sicrhau dyfodol llwyddiannus i ni'n hunain.
- Ysgol lle rydym oll yn sicrhau'r llwyddiant gorau
- Ysgol lle mae pawb yn gwrtais a charedig
- Staff cadarn, cefnogol a charedig sy'n gweithio'n galed i sicrhau'r llwyddiannau gorau i bob dysgwyr -yn academiaidd ac yn allgyrsiol.
- Ysgol lle mae pawb yn awyddus iawn i fanteisio ar bob cyfle, ac yn awyddus iawn i lwyddo.

## Darpariaeth Gynhwysol

Anelwn fel ysgol i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial o ran gallu a thalent.

I gynnal anghenion pob dysgwyr, mae gwaith yn cael ei gynllunio'n ofalus ar gyfer gallu pob unigolyn, i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad i'r cwricwlwm. Os oes anghenion dysgu penodol/mwy dwys gan eich plentyn mae gennym dîm rhagorol o gynorthwyrwyr dysgu i gynnig cymorth fel y bo angen ar ôl arweiniad y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae'r term 'mwy galluog' yn cwmpasu disgyblion sy'n fwy galluog yn academiaidd ar draws y cwricwlwm. Mae'r term 'talentog' yn cwmpasu'r rhai sy'n dangos talent arbennig mewn un maes neu feysydd mwy penodol fel sgiliau chwaraeon, cerddorol yn ogystal â sgiliau arwain a rhyngbersonol. Rydym fel ysgol yn adnabod disgyblion MGaTh ac yn hybu eu llwyddiant. Rydym yn cydweithio gyda Rhwydwaith Seren i gefnogi ein myfyrwyr disgleiriaf.

**RHWYDWAITH  
SEREN**

Cefnogi Myfyrwyr Disgleiriaf Cymru





# Empowering Dreams

09

## Aims of the school;

- School where there is a strong Welsh ethos, and where we develop to be global citizens who respect everyone.
- A place where we learn the skills to enable us to have a successful future
- A school where we all ensure the best level of success
- A school where everyone is kind and courteous to each other
- Supportive and kind staff who work hard to ensure the best levels of success for all pupils—academically and in terms of extra-curricular activities
- A school where everyone is very enthusiastic to take advantage of all opportunities, and very eager to succeed.



## Inclusive provision

As a school, we aim to ensure that each pupil fulfils his/her potential with regards to ability and talent.

To support all learners' needs, work is carefully planned for all abilities, to ensure that each individual learner has access to the curriculum. If your child has specific learning needs, we have an outstanding team of learning support assistants to provide support as directed by the Additional Learning Needs Coordinator (ALNCo).

The term 'more able' refers to pupils who are academically more able across the curriculum. The 'talented' refers to those pupils who show a special talent in one field or in more specific fields such as sports skills, musical ability as well as leadership and interpersonal skills. As a school, we identify More Able and Talented (MAT) pupils and promote their success. The school collaborates with The Seren Network to support out brightest pupils.

**RHWYDWAITH  
SEREN**

Cefnogi Myfyrwyr Disgleiriaf Cymru

# 10 Y Cwricwlwm

## Bagloriaeth Cymru

Mae pob disgybl / myfyriwr ym mlynnyddoedd 10-13 yn dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru.



## Cyfleoedd gyda'r bagloriaeth

- Menter
- Gweithio gydag eraill
- Gwirfoddoli

## Y fframwaith Academiaidd

### Pa bynciau sy'n cael eu hastudio?

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl weithgareddau a phrofiadau sydd yn cael eu cynllunio er mwyn cefnogi ein dysgwyr i ddysgu, a'u paratoi ar gyfer byw bywyd llawn yn yr unfed ganrif ar hugain o fewn y gymdeithas ddwyieithog y mae'n byw ynddi.

Ar gyfer pob maes dysgu ceir Arweinydd Maes fydd yn cefnogi aelodau ei adran i ddarparu addysg o'r ansawdd orau.

Rhodddwn bwystlais ar gynnig cwricwlwm cyflawn sydd yn cynnwys:

Fe anogir pob dysgwr i fanteisio yn llawn ar yr hyn a ddarperir.

1. Gofal bugeiliol a datblygiad personol a chymdeithasol
2. Addysg ar gyfer Gwaith a Gyrfa
3. Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
4. Gweithgareddau allgyrsiol

Er mwyn sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm ar gyfer pob plentyn, caiff y ddarpariaeth ei wahaniaethu mewn amrywiol ffurf, a gwneir pob ymdrech i ymateb i anghenion yr unigolyn.

Mae pob disgybl / myfyriwr ym mlynnyddoedd 10-13 yn dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru.



# The Curriculum

11

## The Academic Framework

### What subjects are studied?

The curriculum includes all activities and experiences that are designed to support our students to learn, and prepare them for living a full life in the 21st century within the bilingual community in which they live.

For each area of learning there is a subject leader who will support members of his/her department to provide education of the highest quality.

We put an emphasis on offering a complete curriculum that includes:

All learners are encouraged to take full advantage of this provision.

1. Pastoral care and personal and social development
2. Education for work and careers
3. Sustainable development and global citizenship
4. Extracurricular activities

To ensure full access to the curriculum for all children, the provision is differentiated in various forms, and every effort is made to respond to the needs of the individual.

All pupils / students from years 10-13 follow the Welsh Baccalaureate Qualification.

## Welsh Baccalaureate

All pupils / students from years 10-13 follow the Welsh Baccalaureate Qualification.



## Opportunities with the Baccalaureate

- Team enterprise
- Working with others
- Volunteering



# 12 Dewisiadau

## Dewis 1

- Addysg Gorfforol
- Celf
- Cerdd
- Datblygiad Plentyn
- Daearyddiaeth

## Dewis 2

- Dylunio Cynnyrch
- Ffrangeg
- Astudiaethau Cyfryngau
- Addysg Grefyddol
- Amaethyddiaeth
- Gwaith Gof
- Hanes

## Dewis 3

- Hanes
- TGCh
- Dylunio Cynnyrch
- Tecstilïau / Celf
- Daearyddiaeth
- Cerdd
- Drama

Ar gyfer y cyfnod 2018-2020 bydd rhaid i bob disgybl astudio'r pynciau gorfodol canlynol i'r lefelau a argymhellir gan yr athrawon pwnc.

Cymraeg

Saesneg

Mathemateg

Gwyddoniaeth

Y Fagloriaeth Gymraeg

Yn ogystal ceir cyfle i ddewis 3 pwnc ychwanegol - un pwnc o bob colofn yn y siart dewisiadau. Ni ellir sicrhau y bydd bob pwnc sydd o fewn y dewis yn cael ei gynnig. Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am bynciau y mae modd i ni eu cynnig. Bydd niferoedd y rhai sy'n dewis pynciau yn penderfynu a fydd yn bosib cynnig y cwrs ai peidio.

Mi fydd Dewis 3 yn cael ei haddysgu ar y cyd gyda blwyddyn 10 ym mis Medi 2019 h.y. Mi fydd eich mab/merch yn astudio Dewis 1 a 2 ym mlwyddyn 10 a Dewis 3 ym mlwyddyn 11.

Mae'n bwysig fod rhieni a disgyblion yn meddwl yn hir dymor wrth ddewis pynciau. Mae angen i'r disgyblion fod a dawn yn y pwnc, a dylent ddewis gyda'r bwriad o symud ymlaen i'r lefel nesaf e.e. Lefel A neu hyfforddiant.

Efallai y dylech gadw mewn cof addysg 18+ neu hyfforddiant hefyd.



# Options

13

For the period 2018-2020 all the pupils will have to study the following compulsory subjects to the levels recommended by the subject teachers.

Welsh
English
Mathematics
Science
The Welsh Bacallaureate

All pupils will then choose 3 subjects, one subject from each column of the option chart. We cannot ensure that all subjects in the option columns will be offered. This booklet contains information about courses which we can offer. The number of pupils opting for the subject will decide whether it is viable to offer the course.

Option 3 will be studied jointly with year 10 in September 2019 i.e. Your son/daughter will study Options 1 and 2 in year 10 and Option 3 in Year 11.

It is important that parents and pupils think of the long term future when selecting subjects. Pupils need to have a flair for the subjects, they should choose with the idea of progressing on to the next level at 16+ e.g. A Levels or training.

Perhaps you need also to bear 18+ education or training in mind.

## Option 1

- Physical Education
- Art
- Music
- Child Development
- Geography

## Option 2

- Product Design
- French
- Media Studies
- Religious Studies
- Agriculture
- Blacksmithing
- History


## Option 3

- History
- ICT
- Product Design
- Textiles / Art
- Geography
- Music
- Drama

# 14 Y Fagloriaeth Gymraeg

## Beth yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru?

Mae Bagloriaeth Cymru'n gymhwyster cyffrous sy'n ychwanegu dimensiwn newydd a gwerthfawr i'r pynciau a'r cyrsiau sydd eisoes ar gael i ddysgwyr 14 i 19 oed. Ar ei newydd wedd mae'r cymhwyster yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau a Chymwysterau Ategol. Prif nod y cymhwyster yw hyrwyddo sgiliau hanfodol ar gyfer cyflogaeth a darparu cyfleoedd ar sail tair Her a Phrosiect Unigol.



"Mae Bagloriaeth Cymru yn ganolog i ddyfodol addysg yng Nghymru a bydd yn cynnig profiad i ddysgwyr sy'n unigryw a gwerthfawr."

- Caroline Morgan, Rheolwr Fframwaith Bagloriaeth Cymru, CBAC

## Beth yw Pwrpas Bagloriaeth Cymru?

Trwy ychwanegu sgiliau datblygiad personol at gymwysterau galwedigaethol neu astudiaethau academiaidd, mae Bagloriaeth Cymru'n helpu pobl ifanc i gyflawni mwy. Mae'n eu harfogi ar gyfer y byd gwaith ac yn darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus a gofalgarg. Mae'n cynnig mwy o ehangder iddynt yn eu hastudiaethau, pa gyfuniad bynnag o gyrsiau y maent yn eu dilyn. Bydd myfyrwyr wedi'u paratoi'n well ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch, yn ogystal ag ar gyfer y byd gwaith.

Mae'r cymhwyster newydd yn ymgorffori'r sgiliau canlynol i mewn i bedair her;

- Meddwl yn Feiriadol a Datrys Problemau
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Cynllunio a Threfnu
- Effeithiolrwydd Personol

Yn ogystal â'r heriau uchod, mae'r meysydd canlynol yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu cymhwyster y Fagloriaeth;

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol

## Beth yw gwerth y gymhwyster?

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol ynghyd â'r Cymwysterau canlynol:

TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A\* - C

TGAU Mathemateg – Rhifedd ar raddau A\* - C

O leiaf dri chymhwyster TGAU arall ar raddau A\* - C

Gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth megis BTEC

Rhoddir gradd **A\* - C** am y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol.

Mae'r cymhwyster Cenedlaethol ac Uwch yn cyfuno sgiliau datblygiad personol gyda chymwysterau cyfredol fel Safon Uwch, BTEC a TGAU i ffurfio un dyfarniad ehangach sy'n cael ei werthfawrogi gan gyflogwyr ac yn cael ei gydnabod gan brifysgolion Cymru, Yr Alban a Lloegr - UCL, Bryste, Caeredin, Exeter, Birmingham ac East Anglia - i enwi dim ond rhai.





# The Welsh Bacculaureate

## What does it set out to Achieve?

By adding personal development skills to vocational qualifications or academic study, the Welsh Bacculaureate helps young people achieve more. It makes them better equipped for the world of work, better informed and more active, caring citizens.

It allows for more flexibility in their studies, whatever mix of courses they are following. Students become better prepared for further and higher education, as well as employment.

The new qualification incorporates the following skills into four challenges:

- Critical Thinking & Problem Solving
- Creativity & Innovation
- Planning & Organisation
- Personal Effectiveness

In addition to the challenges above, the following areas are taken into consideration when awarding the Bacculaureate qualification;

- Literacy
- Numeracy
- Digital Literacy

## What is the Qualification Worth?

To achieve the National Welsh Bacculaureate learners must achieve the National Skills Challenge Certificate together with the following Supporting Qualifications:

GCSE English Language or GCSE Welsh Language at grade A\* - C

GCSE Mathematics – Numeracy at grade A\* - C

A minimum of three further GCSEs grade A\*- C


Two may be equivalent qualifications such as BTEC

The National Skills Challenge Certificate is ultimately graded A\* - C.

The qualification combines personal development skills with existing qualifications like A Levels, BTEC and GCSE to make one wider award that is valued by employers and recognised by universities in Wales, Scotland and England – UCL, Bristol, Edinburgh, Exeter, Birmingham & East Anglia – to name but a few.

## What is the Welsh Bacculaureate Qualification?

The Welsh Bacculaureate is an exciting qualification that adds a valuable new dimension to the subjects and courses already available to 14 - 19 year old students. The new revised and more rigorous Welsh Bacculaureate is based on a Skills Challenge Certificate and Supporting Qualifications. The primary aim is to promote essential skills for employment and to provide opportunities through three Challenges and an Individual Project.



The Welsh Bacculaureate is central to the future of education in Wales and will offer a unique and valuable experience for learners."

- Caroline Morgan, Welsh Bacculaureate Framework Manager, WJEC

# 16 Cymraeg Iaith Gyntaf



“

“Mae to iau yn wlad o oleuadau, a thrwy darth yr oriau du ein heniaith sy'n tywynnu.”

“

“Un o fy hoff wersi gan ein bod yn dysgu cymaint am hanesion a thraddodiadau Cymru trwy fwrlwm angerddol y beirdd”

Hanna Lewis

Dyma gwrs newydd a gyflwynwyd gan y Llywodraeth i'w addysgu am y tro cyntaf o Fedi 2015 ymlaen.

Astudir Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg

## Y CWRS IAITH

### Uned 1 - Arholiad Llafar 30%

Trafod a mynegi barn ar destun cyfoes mewn grwpiau o 3.

### Uned 2 - Arholiad Darllen ac Ysgrifennu 35%

Bydd angen i'r ymgeiswyr ddarllen o leiaf un testun disgrifio, un naratif ac un esbonio yn cynnwys testunau di-dor a phytig. Asesir y darllen drwy gyfres o gwestiynau pytiog. Bydd yr adran hon hefyd yn cynnwys tasg golygu testun.

### Uned 3 - Arholiad Darllen ac Ysgrifennu 35%

Unwaith eto bydd angen darllen amrywiaeth o destunau cyn mynd ati i ateb nifer o gwestiynau strwythuredig. Ceir yma hefyd ddwy dasg ysgrifennu benodol.

## Y CWRS LLENYDDIAETH

### Uned 1 - Barddoniaeth 25%

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr werthfawrogi a chymharu un o'r cerddi gosod â cherdd nas astudiwyd o'r blaen.

### Uned 2 - Nofel 25%

Disgwylir i'r ymgeiswyr ateb cyfres o gwestiynau ar y nofel osod.

### Uned 3 - Llenyddiaeth 25%

Arholiad llafar ble bydd yr ymgeiswyr yn trafod ffilm Gymraeg a'i chymharu â'r testun print.

### Uned 4 - Asesiad Diarholiad Ysgrifenedig - 25%

Bydd angen cyflwyno dau ddarn o waith cwrs ysgrifenedig a gwblheir o dan amodau arbennig yn y dosbarth, un yn seiliedig ar ddama a'r llall ar straeon byrion.



# Welsh First Language

17

Both Welsh Language and Literature are studied

## WELSH LANGUAGE

### Unit 1 - Oral Exam 30%

In groups of no more than 3, candidates will discuss and form opinions on a topical issue.

### Unit 2 - Reading & Writing Exam 35%

Candidates must read various texts before answering structured questions which will vary in format.

One question will also ask candidates to edit a text.

### Unit 3 - Reading & Writing Exam 35%

Again, candidates will answer various questions on the reading material before answering two questions which will assess the student's writing abilities.

## THE LITERATURE COURSE

### Unit 1 - Poetry 25%

Candidates are expected to discuss one seen and one unseen poem.

### Unit 2 - Novel 25%

Candidates will answer structured questions on the studied novel.

### Unit 3 - Media Study 25%

An oral exam based on a Welsh film.

### Unit 4 - Course Work - 25%

Two written pieces, one based on short stories and the other on a drama.



“

“Knowledge of languages is the doorway to wisdom”

“

“The lessons vary from individual to group work which helps us develop many useful skills”

Ffion Jones

This is a brand new course introduced by the Welsh Government in September 2015.



# 18 Cymraeg Ail Iaith



“

“Amlieithrwydd yw allwedd doethineb”

“

“Welsh is of this soil, this island, the senior language of the men of Britain; and Welsh is beautiful.”

J. R. R. Tolkien

Athrawon Adran y Gymraeg:

Mr Llifon J. Ellis (Pennaeth yr Adran)

Miss Anna Rhys Davies

Ms Angharad Elias

Mr Nic Ros

Mae'r cwrs hwn yn darparu profiadau sy'n rhoi cyfle i bob ymgeisydd ymgynraedd at ei botensial llawn yn y Gymraeg yn ôl ei allu a'i angen. Anelir at sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y Gymru gyfoes gan feithrin ymagweddiad cadarnhaol tuag at y Gymraeg a'i diwylliant. Datblygir sgiliau ymgeiswyr i ddefnyddio'r iaith at ddibenion cyfathrebu effeithiol a phwrpasol yn eu bywyd bob dydd a/neu mewn sefyllfaoedd galwedigaethol.

## CYNLLUN ASESU

**UNED 1 Papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%) Haen Uwch a Sylfaenol**

- 4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (10%)
- 2 ddarllen (15%)

**UNED 2 Asesiad dan Reolaeth (25%) Dim Haen**

Llafaredd 20%

- Tasg 1 – Cyflwyniad unigol (10%)
- Tasg 2 – Sgwrs Sefyllfa (10%) – Tasg pâr/grŵp

Ysgrifennu – (5%)

- Gwaith ysgrifennu yn deillio o'r sgwrs sefyllfa.

**UNED 3 Arholiad Llafar: 10 munud (25%) Haen Uwch a Sylfaenol**

Llafaredd 20%

- Arholiad llafar pâr/ grŵp.

Darllen 5%

- Trafod deunydd darllen fel symbyliad i'r arholiad llafar.

**UNED 4 Papur Ysgrifenedig: 1 awr (25%) Haen Uwch a Sylfaenol**

- 4 cwestiwn – 2 ysgrifennu (15%)
- 2 ddarllen (10%)



# Welsh Second Language

19

This course provides opportunities for every candidate to achieve his potential in Welsh, according to his ability and needs. The course aims to ensure all candidates become aware of the use of the Welsh language in contemporary Wales and aims to nurture a positive attitude towards Wales and its culture. Candidates' skills are developed for the purpose of effective and purposeful communication in their everyday life and/or in vocational situations.

## SCHEME OF ASSESSMENT

### UNIT 1 Written Paper: 1 hour (25%) Higher and Foundation Tiers

- 4 Questions - 2 Writing (10%)
- 2 Reading (15%)

### UNIT 2 Controlled Assessment (25%) No Tiers

#### Oral (20%)

- Task 1 – Individual Presentation (10%)
- Task 2 – Conversation rising from a situation in groups or pairs (10%)

#### Writing (5%)

- Written work based on the above conversation

### UNIT 3 Oral Examination: 10 Minutes (25%) Higher & Foundation Tiers

- Discussion in groups / pairs (20%)

#### Reading (5%)

- Discussing reading material as stimulus for the above discussion

### UNIT 4 Written Paper: 1 hour (25%) Higher and Foundation Tiers

- 4 Questions - 2 Writing (15%)
- 2 Reading (10%)



“

“Notitia linguarum est prima porta sapientiae”

“Knowledge of languages is the doorway to wisdom”

“

“I like learning a second language, which I am able to use confidently in my everyday life. I am able to have conversations with people in Welsh” Harriet Bletcher

#### Faculty Members:

Mr Llifon J. Ellis (Head of Department)

Miss Anna Rhys Davies

Ms Angharad Elias

Mr Nic Ros

# 20 Saesneg



“

Literature is the art of discovering something extraordinary about ordinary people and saying with ordinary words something extraordinary. Boris Pasternak

“

I really loved reading “Stone Cold”. It made me think about so many things: the military, family relationships and homeless people and their lives.

The specification for English Language is a new and exciting course. Our students, along with all students in Wales, will sit the examination for the first time in June 2017.

Bydd rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 10 yn cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Saesneg Llenyddiaeth ar ddiwedd blwyddyn 10. Ym mlwyddyn 11 byddent yn astudio Saesneg Iaith a chael eu cofrestru ar gyfer TGAU Llenyddiaeth ar ddiwedd blwyddyn 11. Mae'r ddwy arholiad yn gyfwerth â TGAU llawn.

Yn ystod y ddwy flynedd, bydd y disgyblion yn astudio ystod eang o destunau llenyddol ac an-lenyddol, gan gynnwys drama gyfoes a rhyddiaith a barddoniaeth cyn 20<sup>fed</sup> ganrif. Bydd testunau an-lenyddol yn cynnwys: tudalennau gwe, ysgrif teithio; ymgyrch hysbysebu ac erthyglau papur newydd a chylchgronau.

## Cynllun o Asesiad

Blwyddyn 10 Saesneg Iaith TGAU

- Uned 1 Asesiad di-arholiad - Llafar 20%
- Uned 2 Asesiad allanol—Darllen ac Ysgrifennu Beirniadol, Naratif ac Esboniadol 40% (2 awr)
- Uned 3 Asesiad allanol—Darllen ac Ysgrifennu Dadleugar, Darbwyllo a Chyfarwyddol 40% (2 awr)

## Cynllun o Asesiad

Blwyddyn 11 Llenyddiaeth Saesneg TGAU

- Uned 1 Arholiad allanol— Rhyddiaeth (gwahanol ddiwylliannau) a barddoniaeth (cyfoes) 35% (2 awr)
- Uned 2b Arholiad allanol—drama gyfoes a rhyddiaeth etifeddiaeth llenyddol 40% (2 awr)
- Uned 3 Asesiad di arholiad—Shakespear ac ysgrifennu Cymraeg mewn Saesneg 25%



# English

21

All year 10 students will be entered for GCSE English Language at the end of year 10. In year 11 they will study English Literature, provided they have achieved a C+ grade in English Language, and will be entered for GCSE Literature at the end of year 11. Each examination is a **full** GCSE.

During the two years, pupils will study a wide range of literary and non-literary texts, including contemporary drama and pre 20th century prose and poetry. Non-literary texts will include: web pages, blogs, infographics, travel writing, advertising campaigns and newspaper and magazine articles.

## Scheme of Assessment

### Year 10 English Language GCSE

- Unit 1 Oracy: Non-examination Assessment— Individual presentation, based on a WJEC set theme and a group discussion based upon one of three topics set by the WJEC.
- Unit 2: External Assessment—Reading and Writing Description, Narrative and Exposition 40% (2 hours)
- Unit 3: External Assessment—Reading and Writing Argumentation, Persuasion and Instructional 40% (2 hours)

## Scheme of Assessment

### Year 11 English Literature GCSE

- Unit 1 External Examination—Prose (different cultures) and poetry (contemporary) 35% (2 hours)
- Unit 2b External Examination—Contemporary drama and literary heritage prose. 40% (2 hours)
- Unit 3 Non-examination Assessment— Shakespeare and Welsh Writing in English. 25%



“

It's in literature that true life can be found. It's under the mask of fiction that you can tell the truth. Gao Xingjian

“

“I get excited when I've got English because each lesson is interesting and I learn something new every time. It also really helps with spelling and grammar. I know what an embedded clause is now and how to use it!

The specification for English Language is a new and exciting course. Our students, along with all students in Wales, will sit the examination for the first time in June 2017.



# 22 Mathemateg



“

“The essence of mathematics is not to make simple things complicated, but to make complicated things simple.”

S. Gudder

“

“Mae'r cwrs yn un diddorol ac mae'r athrawon yn rhoi cymorth defnyddiol i helpu ni lwyddo yn y cwrs.”

Heledd Pughe.

Atgoffir rhieni a disgyblion ei bod yn bosib archebu cyfrifiannellau ar ddechrau'r flwyddyn trwy'r adran am bris rhesymol a dylai'r disgyblion ddod ag offer megis pren mesur, onglydd a chwmpawd i'r ysgol.

Bydd disgyblion yn ennill dwy radd TGAU mewn Mathemateg, un mewn Mathemateg ac un mewn Mathemateg-Rhifedd.

### TGAU CBAC Mathemateg

Bydd TGAU Mathemateg yn adeiladu ar y lefelau mathemateg sy'n ddisgwyliedig ar ddiwedd CA3 ac yn symud ymlaen ohonyn nhw trwy'r Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol Mathemateg. Bydd y fanyleb yn galluogi'r dysgwyr i werthfawrogi cydlynedd, creadigedd, ceinder a grym mathemateg drwy ddysgu a defnyddio'r canlynol:

Algebra

Rhif

Siâp a Mesur

Tebygolrwydd ac Ystadegaeth

Mae tair haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch: Graddau A\* – C

Haen Ganolradd: Graddau B – E

Haen Sylfaenol: Graddau D – G

### Asesiadau Allanol:

Bydd disgyblion yn astudio 2 fodiwl i ennill cymhwyster:

#### Uned 1: Heb Gyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig—50% o'r cymhwyster

#### Uned 2: Caniateir Cyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig—50% o'r cymhwyster

### TGAU CBAC Mathemateg - Rhifedd

Yn y fanyleb hon bydd pwystlais ar yr agweddau hynny ar fathemateg sydd fwyaf perthnasol i ddysgwyr sy'n ddinasyddion deallus y 21 ganrif. Bydd y fanyleb yn cynnwys datrys problemau o'r byd go iawn a'r gylchred datrys problemau yn ogystal ag agweddau mwy rhifiadol mathemateg Bydd cynnwys y fanyleb hon yn canolbwyntio ar ddysgu a defnyddio agweddau o:

Rhif, Mesur, Ystadegaeth a rhai agweddau o Algebra, Geometreg a Tebygolrwydd.

Mae tair haen gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

Haen Uwch: Graddau A\* – C

Haen Ganolradd: Graddau B – E

Haen Sylfaenol: Graddau D – G

### Asesiadau Allanol:

Bydd disgyblion yn astudio 2 fodiwl i ennill cymhwyster:

#### Uned 1: Heb Gyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig—50% o'r cymhwyster

#### Uned 2: Caniateir Cyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig—50% o'r cymhwyster



# Mathematics

23

Pupils will gain two GCSEs in Mathematics, one in Mathematics, and one in Mathematics-Numeracy.

## WJEC GCSE in Mathematics

GCSE Mathematics will build on and progress from the levels of mathematics expected at the end of KS3 through the National Curriculum Programme of Study for Mathematics. The GCSE specification in Mathematics should enable learners to develop knowledge, skills and understanding of mathematical methods, techniques and concepts through learning about and using the following:

- Algebra
- Number
- Geometry and Measure
- Probability and Statistics.

There are 3 tiers of entry for this qualification.

Higher Tier: Grades A\* – C

Intermediate Tier: Grades B – E

Foundation Tier: Grades D – G.

### External Assessment:

Learners will study 2 Units to gain a qualification.

#### Unit 1: Non-calculator

Written examination—50% of qualification

#### Unit 2: Calculator-allowed

Written examination—50% of qualification

## WJEC GCSE in Mathematics - Numeracy

It will have an emphasis on those aspects of mathematics which are of most relevance to learners functioning as informed twenty-first century citizens. Solving problems in the real world and the problem-solving cycle will feature within the specification as well as the more numerical aspects of mathematics. The content of this specification will focus on learning about and using the following:

Number, Measure and Statistics plus some aspects of Algebra, Geometry and Probability.

There are 3 tiers of entry for this qualification.

Higher Tier: Grades A\* – C

Intermediate Tier: Grades B – E

Foundation Tier: Grades D – G

### External Assessment:

Pupils will study 2 modules to achieve the qualification

#### Unit 1: Non-calculator

Written examination—50% of qualification

#### Unit 2: Calculator-allowed

Written examination—50% of qualification



“

“The essence of mathematics is not to make simple things complicated, but to make complicated things simple.”

S. Gudder

“

“Maths can be challenging, but with the help of supportive teachers it provides valuable life skills and opportunities for the future.”

Pupils and parents are reminded it is possible to purchase calculators at the beginning of the year for a reasonable price from the department and pupils should be equipped with measuring instruments such as a ruler, protractor and compasses.

# 24 Y Gyfadran Wyddoniaeth



“

“Gwyddoniaeth ydy'r gair defnyddiwn i ddisgrifio dull o drefnu ein chwilfrydedd ”

“

“Meddylwch fel proton, byddwch yn positif!”  
 “Y peth pwysig yw i fyth stopio cwestiynnu” - Einstein



## Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad dwbl):

Mae TGAU Gwyddoniaeth yn darparu astudiaeth sylfaenol o gysyniadau a gwybodaeth wyddonol a'u goblygiadau.

Mae'n cynnwys 5 uned a asesir yn allanol (3 arholiad o 1 awr 30 mun yr un), yn ogystal ag asesiad ymarferol ac asesiad seiliedig ar dasgau.

Uned	Testun	Canran o'r gymhwyster	Asesiad yn digwydd yn ystod...
1	Egni, adnoddau a'r amgylchedd	22.5%	Blwyddyn 10
2	Y Gofod, iechyd a bywyd	22.5%	Blwyddyn 10
3	Bwyd, defnyddiau a phrosesau	25%	Blwyddyn 11
4	Asesiad seiliedig ar dasg	20%	Blwyddyn 11
5	Asesiad ymarferol	10%	Blwyddyn 11

Bydd yr arholiadau allanol ym mis Mai/ Mehefin blwyddyn 10 ac 11. Mi fydd asesiadau ymarferol yn digwydd ar ddiwrnod sy'n cael ei bennu gan CBAC.

Mae dwy haen yn yr arholiadau. Yr haen uwch yn caniatáu cyrraedd graddau A\*-D a'r haen sylfaenol yn caniatáu cyrraedd graddau C-G.



# The Science Faculty

25

## Applied Science (Double award):


GCSE Science provides a basic study of scientific concepts, knowledge and implications.

It contains 5 units that are externally assessed (3 examinations 1 hour 30 minute each in length), along with an externally marked practical assessment and task based assessments.

Unit	Topic	Percentage of GCSE	Assessment takes place in...
1	Energy, resources and the environment	22.5%	Year 10
2	Space, health and life	22.5%	Year 10
3	Food, materials and processes	25%	Year 11
4	Task based assessment	20%	Year 11
5	Practical assessment	10%	Year 11

The external examinations will be during May/ June of Year 10 and year 11. Practical assessments will take place on a day specified by the WJEC.

There are two tiers in the examinations. Foundation tier awarding grades C-G and higher tier giving grades A\*-D.



“

“Science is simply the word used to describe a method of organizing our curiosity”

“

“Think like a proton and stay positive”

“The important thing is to never stop questioning” - Einstein

**Dynamic Learning Package**

my revision notes



WJEC GCSE

SCIENCE DOUBLE AWARD

For the 2016 Specifications

Adrian Schmit  
Jeremy Pollard



HODDER EDUCATION  
LEARN MORE



# 26 Y Gyfadran Wyddoniaeth




“

“Gwyddoniaeth ydy'r gair defnyddiwn i ddisgrifio dull o drefnu ein chwilfrydedd ”

“

“Meddylwch fel proton, byddwch yn bositif!”

“Y peth pwysig yw i byth stopio cwestiynnu” -  
Einstein



## Gwyddoniaeth Triphlyg:

Bwriedir bydd disgyblion sydd eisiau astudio un o'r gwyddorau (Bioleg, Cemeg, Ffiseg) ar gyfer lefel A neu sydd eisiau astudio Gwyddoniaeth yn fwy manwl yn dilyn y cwrs yma.

### Bioleg:

- Uned 1 - Celloedd, systemau organau ac ecosystemau. 45%
- Uned 2—Amrywiad, Homeostatis a microbau. 45%
- Uned 3—Asesiad ymarferol 10%

### Cemeg:

- Uned 1—Sylweddau cemegol, adweithiau ac adnoddau 45%
- Uned 2—Bondio cemegol, cymhwysiaid adweithiau cemegol a chemeg organig 45%
- Uned 3—Asesiad ymarferol 10%

### Ffiseg:

- Uned 1—Trydan, egni a thonau 45%
- Uned 2—Grymoedd, gofod ac ymbelydredd 45%
- Uned 3—Asesiad ymarferol 10%

Disgwylir i ddisgyblion fydd eisiau astudio lefel A Bioleg, Cemeg neu Ffiseg yn astudio gwyddoniaeth triphlyg, pob un yn TGAU ar wahân.

Disgwylir i ddisgyblion sy'n dysgu yn well wrth wneud gwaith ymarferol astudio'r cwrs gwyddoniaeth dwbwl, gwerth dwy TGAU.



# The Science Faculty

27

## Triple Science:

It is intended that pupils who want to study science in more detail and who intend to study A level Sciences (Biology, Chemistry or Physics) will study this course.

## Biology:

- Unit 1 - Cells, organ systems and ecosystems 45%
- Unit 2 - Variation, homeostasis and microbes 45%
- Unit 3— Practical assessment 10%

## Chemistry:

- Unit 1—Chemical substances, reactions and essential resources 45%
- Unit 2— Chemical bonding, applications of chemical reactions and organic chemistry 45%
- Unit 3—Practical assessment 10%

## Physics:

